

**Atal – pa mor dda y mae ysgolion a gynhelir yn
gweithredu eu dyletswyddau o dan
Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.**

Teitl yr Adroddiad:

Atal – pa mor dda y mae ysgolion a gynhelir yn gweithredu eu dyletswyddau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

Manylion yr Adroddiad

Comisiynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru i ddeall mwy am y ffordd mae agenda Atal yn cael ei sefydlu mewn ysgolion, ac i dynnu sylw at astudiaethau achos o arferion gorau i'w rhannu ar draws Cymru.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddarpariaeth effeithiol i ddiogelu dysgwyr mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oedran a gynhelir wrth adnabod a helpu dysgwyr sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio. Mae'n cynnwys astudiaethau achos o arferion nodedig a welwyd gan yr arolygwyr.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Mae canllawiau clir a chynhwysfawr yn eu lle i ysgolion yng Nghymru yn amlinellu eu dyletswyddau Atal dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

Ym mwyafrif yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rôl a'u cyfrifoldebau i ddiogelu disgyblion, gan gynnwys o ran radicaleiddio ac eithafiaeth. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw arweinwyr yn amgyffred bod radicaleiddio ac eithafiaeth yn berthnasol i'w hysgol. Mae'r diffyg sylw hwn i Atal yn golygu y gallai staff yn yr ysgolion hyn golli cyfle i nodi a mynd i'r afael â phryderon cynnar am ddisgybl.

Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn y sampl yn gwneud digon i sicrhau bod cwricwlwm eu hysgol yn addysgu eu dysgwyr mewn dinasyddiaeth; a sut gall disgyblion ddiogelu eu hunain rhag y dylanwadau a'r phwysau hynny a allai geisio camfanteisio arnynt. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad yw athrawon yn gallu elwa'n hawdd ar gymorth, hyfforddiant ac arweiniad priodol.

Mae angen i athrawon fod yn hyderus eu bod yn gallu ymdrin â materion sensitif a chynhennus a allai godi yn ystod y diwrnod ysgol. Er bod ysgolion wedi cael cymorth da i ddeall eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, cafwyd llai o arweiniad ynglŷn â sut i integreiddio'r gwaith hwn yn y cwricwlwm. Nid yw ysgolion wedi cael digon o gymorth na her i'w helpu i ddatblygu eu cwricwlwm yn y maes hwn. Nid yw awdurdodau lleol a chonsortia wedi gweithio gyda'i gilydd yn ddigon da ar gyfer datblygu cymorth cwricwlwm ar gyfer cynnwys agweddau ar ddinasyddiaeth sy'n meithrin gwydnwch ymhlith disgyblion.

Nid yw llawer o ysgolion yn ymwybodol o ystod yr adnoddau ystafell ddosbarth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys y rhai ar Hwb.

Mae'r holl awdurdodau lleol y gwnaed arolwg ohonynt wedi sicrhau cyfle i ysgolion elwa ar hyfforddiant ynglŷn â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf. Nid yw awdurdodau lleol yn monitro'n dda o ran p'un a yw'r wybodaeth sy'n cael ei dysgu mewn hyfforddiant fel cwrs y Swyddfa Gartref, sef Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth am Atal (WRAP), yn cael ei lledaenu i aelodau eraill o'r staff.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A10 - Gweithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gynorthwyo ysgolion i feithrin gwydnwch disgyblion pan fyddant yn wynebu dylanwadau radical ac eithafol

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn: Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn canfyddiadau adroddiad Estyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i feithrin gwydnwch disgyblion pan fyddant yn wynebu dylanwadau radical ac eithafol.

Bydd y Cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar ddarparu sgiliau a phrofiadau i ddysgwyr ddatblygu ffyrdd effeithiol o wneud penderfyniadau. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i archwilio a gwerthuso amrywiol wybodaeth, gan ystyried amrywiol ffactorau, er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus ac ystyrlon. Bydd ysgolion a lleoliadau yn cael eu hannog i ddefnyddio'r byd ar-lein fel ffordd o archwilio a datblygu'r sgiliau hyn.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn benodol yn canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth dysgwyr a'u dealltwriaeth o ddylanwadau cymdeithasol, gan gynnwys y byd ar-lein. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i werthuso'r wybodaeth y maent yn dod ar ei thraws mewn ffordd feirniadol a deall y dylanwadau cymdeithasol ar eu hunain a'r byd yn ehangach.

Rydym ar hyn o bryd yn ariannu Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, i gynhyrchu fideo ac adnoddau i atal radicaleiddio ac eithafiaeth mewn ysgolion gan swyddogion School Beat.

Rydym ar hyn o bryd yn adolygu ein canllawiau Cadw Disgyblion yn Ddiogel er mwyn sicrhau bod datblygiadau agenda Atal yn cael eu hadlewyrchu'n llawn, a bod y neges bod Atal yn dod o dan ymbarél 'diogelu' yn glir. Bydd canllawiau wedi'u diweddarau yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag arweinwyr diogelu mewn addysg awdurdodau lleol, fel rhan o'n cyfranogiad parhaus yn y grŵp Diogelu Mewn Addysg, sy'n ystyried datblygiadau agenda Atal fel rhan o'i gylch gwaith.

Fis Tachwedd diwethaf cyhoeddwyd diweddariad o'r canllawiau gwrth fwlio cenedlaethol, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cofnodi a monitro achosion o fwlio gan ysgolion. Gwnaed hyn ar sail partneriaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol ac ysgolion i asesu sut rydym yn sicrhau bod canllawiau yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol i ddylanwadu ar arferion yn ein hysgolion, gan gynnwys hyder athrawon.

Rydym wedi defnyddio Cronfa Bontio'r UE i ddatblygu prosiect Troseddau Casineb mewn Ysgolion a'r Grant Cymunedau Lleiafrifol i fynd i'r afael â Throseddau Casineb. Bydd y prosiect Troseddau Casineb mewn Ysgolion, gwerth £350,000, sy'n cael ei reoli gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn cael ei gyflawni mewn 100 o ysgolion ledled Cymru. Bydd yn ceisio adeiladu sgiliau meddwl beirniadol plant, a'u gallu i adnabod a herio iaith casineb ar-lein ac all-lein.

Mae'r adroddiad yn gosod yr argymhellion canlynol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol:

Dylai ysgolion:

A1 Gynnwys risgiau i ddisgyblion o ideolegau radical ac eithafol ym mholisiau'r ysgol, yn enwedig polisïau sy'n cwmpasu TGCh a diogelwch ar-lein

A2 Cofnodi ac adrodd am bob achos o iaith hiliol a bwlio hiliol yn briodol, a chynnig cymorth a her addas i ddioddefwyr a chyflawnwyr

A3 Cydnabod bod radicaleiddio ac eithafiaeth yn risgiau gwirioneddol i ddisgyblion ym mhob ysgol, a sicrhau bod hyfforddiant staff, polisïau a'r cwricwlwm yn mynd i'r afael â'r risgiau hyn yn briodol

A4 Sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion lais a'u bod yn gallu rhannu unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda'r ysgol am ymddygiadau neu fynegiannau o syniadau radical neu eithafol

Dylai awdurdodau lleol:

A5 Fonitro gweithgarwch diogelu ysgolion yn ymwneud â dyletswyddau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 gan ddefnyddio meini prawf ym mhecynnau offer hunanasesu'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru

A6 Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gweithredu ôl-gyfeirio er mwyn rhoi'r cymorth gorau i ddisgyblion sy'n destun cymorth Sianel

A7 Gweithio gyda chonsortia rhanbarthol i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm i gynorthwyo disgyblion i feithrin gwydnwch pan fyddant yn wynebu dylanwadau radical ac eithafol

A8 Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ceisiadau am gyngor cyn cyfeiriadau yn cael eu cofnodi er mwyn darparu gwybodaeth am y materion

sy'n wynebu ysgolion

A9 Gwella'r arfer o olrhain nifer yr arweinwyr ysgol, y llywodraethwyr a'r athrawon sy'n elwa ar hyfforddiant, a sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei raeadru'n effeithiol

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i dynnu eu sylw at yr argymhellion ar eu cyfer, ac ar gyfer ysgolion, yn yr adroddiad hwn.

Manylion cyhoeddi.

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar 05 Chwefror a gellir ei weld ar wefan Estyn:
<https://www.estyn.gov.wales/>

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.



ISBN Digidol 978-1-80038-093-6

© hawlfraint y goron Chwefror 2020
WG40018